Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol a Chyhoeddus yng Nghymru, y Deyrnas Unedig

Digwyddiadau Rhanbarthol

Cyfarfodydd Rhithwir

Gogledd Cymru: 28 Medi 2020 // 14:00 - 15:30

Canolbarth Cymru: 29 Medi 2020 // 13:00 - 14:30

De-orllewin Cymru: 30 Medi 2020 // 10:00 - 11:30

De-ddwyrain Cymru: 1 Hydref 2020 // 9:30 - 11:00

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i ddechrau trafodaeth ar lefel ranbarthol gan ganolbwyntio ar yr argymhellion yn adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd: *Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol a Chyhoeddus yng Nghymru, y Deyrnas Unedig.* Hoffem glywed gennych chi am gryfderau eich rhanbarth, yr heriau sy'n eich wynebu a'r heriau yr ydych yn disgwyl a fydd yn eich wynebu, a sut y gall yr argymhellion yn adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (yr OECD) fod yn ddefnyddiol. Bydd y drafodaeth, ar ffurf deialog agored/holi ac ateb, yn cynnwys yr OECD, Llywodraeth Cymru, Bargeinion Dinesig a Thwf ac Arweinwyr Lleol i'n helpu i roi'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith, yn enwedig y rhai ym Mhenodau 3 a 4.

Diben

Mae'r digwyddiad hwn yn adeiladu ar y trafodaethau a ddechreuwyd fel rhan o'r prosiect "Gwella Capasiti Sefydliadol ar gyfer Llywodraethu Rhanbarthol a Buddsoddi yng Nghymru", a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a'r OECD. Drwy gydnabod y cryfderau a'r heriau penodol i'r rhanbarth, bydd y trafodaethau hyn yn cyfrannu at lunio'r camau gweithredu uniongyrchol a hirdymor a all helpu Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu eu nodau datblygu rhanbarthol a diwallu amcanion deuol twf a chynhwysedd ar draws Cymru.

Agenda

Amseru	Eitem
10 munud cyn dechrau	Mewngofnodi, gwiriad fideo a sain
Dechrau'r digwyddiad 5 munud	**Croeso a sylwadau agoriadol** • **Rachel Garside-Jones,** Dirprwy Gyfarwyddwr y Tîm Buddsoddi Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru

15 munud	**Sesiwn 1: adroddiad yr OECD ar oblygiadau rhanbarthol a thrafodaeth** **Cymedrolwr: Kevin Morgan,** Athro Llywodraethu a Datblygu, Prifysgol Caerdydd • **Maria Varinia Michalun,** Uwch Reolwr Prosiect a Dadansoddwr Polisi, Uned Llywodraethu Aml-lefel, Buddsoddi Cyhoeddus a Chyllid Is-genedlaethol, Canolfan Entrepreneuriaeth, BBaCh, Rhanbarthau a Dinasoedd (CFE), yr OECD • Cwestiynau i'r OECD
65 munud	**Sesiwn 2: Sesiwn Holi ac Ateb ar gyfer y Panel** **Cymedrolwr: Maria Varinia Michalun,** Yr OECD Bydd aelodau'r panel yn rhannu eu barn ar y cryfderau a'r heriau ar gyfer y rhanbarth cyn gwahodd cwestiynau gan y gynulleidfa. • **Prif Swyddog Rhanbarthol,** • **Cynrychiolydd Bargen Dinesig a Thwf** • **Rachel Garside-Jones,** Dirprwy Gyfarwyddwr, y Tîm Buddsoddi Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru • **Kevin Morgan,** Athro Llywodraethu a Datblygu, Prifysgol Caerdydd • Bydd y sesiwn hon yn gyfle i'r unigolion yn y digwyddiad holi cwestiynau i'r panel a chynnal trafodaeth agored am y rhanbarth.
5 munud	**Sylwadau i gloi** **Maria Varinia Michalun,** Yr OECD